TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Fforwm Rhanbarthol TrC Cymru a'r Gororau

# TfW Regional Forum – Wales and Borders

# 21 Mai 2021

## Adroddiad o'r cyfarfod

## Meeting report

# Fforwm Rhanddeiliaid Rhanbarthol Cymru a'r Gororau

Cynhaliwyd cyfarfod y fforwm ar 11 Mai 2021, 10:00 – 12:00

### Mynychwyr

## Aelodau'r Fforwm

| | | |
|---|---|---|
| Sheila Dee | Swyddog Rheilffodd Cymunedol (Caer Amwythig), Cyngor Wrecsam | |
| Peter Bethell | Prif Swyddog Cynllunio a Buddsoddi Trafnidiaeth, Cyngor Dinas Birmingham | |
| Sean Croshaw | Rheolwr Strategol y Rheilffyrdd, Transport for Greater Manchester | |
| Richard Gibson | Rheolwr Rhanddeiliaid, Wales and West, CrossCountry Trains | |
| Toby Rackliff | Arweinydd Strategol, Polisïau'r Rheilffyrdd, West Midlands Rail Executive | |
| Heather Bolton | Uwch Gynllunydd Trafnidiaeth, Telford and Wrekin Council | |
| Adam Graham | Prif Gynllunydd Trafnidiaeth, Cyngor Warrington | |
| Tracey Messner | Rheolwr Materion Cyhoeddus, Network Rail | |
| David Jones | Rheolwr Datblygu Rheilffyrdd, Dinas-Ranbarth Lerpwl | |
| Christian Schmidt | Rheolwr Prosiectau a Rhaglenni Trafnidiaeth, Cyngor Sir Fynwy | |
| Victoria Hammond | Uwch Swyddog Cynllunio Trafnidiaeth, Cyngor Sir Swydd Henffordd | |
| Jon Furley | Rheolwr Gweithrediadau Cynaliadwyedd, Prifysgol Swydd Gaerloyw | |
| Simon Nicholls | Cydgysylltydd Bysiau, Cyngor Sir Casnewydd | |
| Michelle Roles | Rheolwr Rhanddeiliaid Cymru, Transport Focus | |
| Jon Harris | Cyd-Gyfarwyddwr, Partneriaeth Rheilffordd Gymunedol Swydd Gaerloyw | |

## Trafnidiaeth Cymru

| | | |
|---|---|---|
| Mike Dalton | Rheolwr Rhanddeiliaid, Cymru a'r Gororau, Trafnidiaeth Cymru | |
| Louis Mertens | Swyddog Ymgysylltu â Chymunedau, Trafnidiaeth Cymru | |

## Siaradwyr

| | | |
|---|---|---|
| Arron Bevan-John | Rheolwr Rhanddeiliaid, Y Canolbarth a'r Gorllewin, Trafnidiaeth Cymru | 10:25-10:50 |
| Emily Coughlin | Rheolwr Diogelwch Cymunedol, Network Rail | 10:25-10:50 |
| Hinatea Fonteneau | Pennaeth Prosiectau Gorsafoedd, Trafnidiaeth Cymru | 10:50-11:05 |
| Josh Hopkins | Rheolwr Gwydnwch Gweithredol, Trafnidiaeth Cymru | 10:25-10:50 |
| Kate McIntyre | Rheolwr Ansawdd a Phrofiad Gwasanaethau, Trafnidiaeth Cymru | 11:40-11:55 |
| Matthew Breese | Rheolwr Brand, Trafnidiaeth Cymru | 11:20-11:40 |
| Arolygydd Richard Powell | Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig | 10:25-10:50 |
| Tony Clayton | Tony Clayton, Rheolwr Prosiectau Datgarboneiddio, Trafnidiaeth Cymru | 11:05-11:20 |

## Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| Robert Niblett | Cyngor Sir Swydd Gaerloyw |

| | |
|---|---|
| Paul Jones | Pennaeth Gwasanaethau Dinesig, Cyngor Sir Casnewydd |
| Michele Mitchell | Cyngor Torfaen |
| Matt Johnson | Cyngor Sir Swydd Amwythig |
| Andy Moreton | Cyngor Sir Swydd Amwythig |
| Gerard Rhodes | Chester and Cheshire West |
| Matt Powell | Telford and Wrekin Council |
| Richard Hibbert | Cheshire East Council |
| Ann Elias | Fforwm Twf y Canolbarth |
| Sarah Spink | Midlands Connect |
| Fay Easton | West Midlands Trains |
| Eddie Muraszko | Adran Drafnidiaeth (Llywodraeth y DU) |
| Peter West | Adran Dranfnidiaeth (Llywodraeth y DU) |
| Mike Learmond | Ffederasiwn Busnesau Bach |
| Paul Colman | Siambr Fasnach De Swydd Gaer |
| Mark Hooper | Visit Shropshire |
| Rachel Jones | Cyngor Sir Swydd Henffordd |
| Steve Gardner-Collins | Visit Shropshire |
| Neva Mowl | Prifysgol Dinas Birmingham |
| Alison Torrens | Universities West Midlands |
| Rhiannon Jane-Raftery | Community Rail Network |
| Ridhi Kalaria | Sustrans West Midlands |
| Rebecca Taylor | Cyngor Bwrdeistref Halton |

## Nodyn gan y Cadeirydd, Mike Dalton

"Roedd yn wych cael cadeirio Fforwm Rhanddeiliaid y Gororau am y tro cyntaf. Rydw i'n ddiolchgar iawn i'r holl gyflwynwyr a roddodd yr wybodaeth ddiweddaraf ac i bawb a fynychodd a chynnig argraffiadau, adborth a chwestiynau. Roedd hwn yn fforwm arbennig o bwysig yn trafod y mater o ddiogelwch cymunedol ar ein rhwydwaith ac roedd y mewnbwn a gawsom gennych chi, yn enwedig yn ystod y sesiwn drafod, yn amhrisiadwy. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio gan Trafnidiaeth Cymru a'n partneriaid, Network Rail a Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, wrth i ni lunio ein strategaethau a'n tactegau i fynd i'r afael â'r mater hwn. Diolch am roi o'ch amser ac am eich cyfraniadau gwerthfawr yn ystod y fforwm. Os oes unrhyw faterion yr hoffech eu codi neu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau yn dilyn y fforwm, mae croeso i chi gysylltu â ni. Rydyn ni'n edrych ymlaen at eich gweld yn y fforwm nesaf."

## Agenda

### 1. Cyflwyniad ac Ymddiheuriadau

Croesawodd Mike Dalton aelodau'r fforwm i bumed cyfarfod Fforwm Rhanbarthol Cymru a'r Gororau. Cyflwynodd Mike fformat y cyfarfod, gan gynnwys y defnydd o ystafelloedd trafod ynghyd ag adborth o'r arolwg blaenorol a'r ffordd rydym wedi addasu ein fforymau yn unol â'r adborth. Hysbysodd Mike yr aelodau o'r negeseuon cyfredol ar gyfer Teithio'n Fwy Diogel ac o reolau Llywodraeth Cymru sydd dal i fod ar waith ar hyd a lled Cymru mewn perthynas â'r pandemig Covid-19.

### 2. Sesiwn Holi ac Ateb gyda Phrif Weithredwr, Trafnidiaeth Cymru

Cynhaliodd James Price sesiwn holi ac ateb agored gydag aelodau'r fforwm.

Gofynnodd Sheila Dee, Chester Shrewsbury Rail Partnership, gyda gŵyl banc yn nesáu, beth oedd disgwyliadau TrC mewn perthynas â niferoedd teithwyr rhwng Gogledd Lloegr ac

Arfordir Gogledd Cymru. Eglurodd James Price fod TrC yn bryderus iawn ynghylch nifer y teithwyr yn gyffredinol, a chan fod y gyfraith yn mynnu y dylid cadw pellter cymdeithasol o 2 fetr, mae cyfyngiad sylweddol ar nifer teithwyr y gellir eu cludo (tua 28% o'r capasiti arferol). Mae yna fesurau lliniaru ar waith sy'n golygu y gellir llenwi'r trenau'n fwy na hynny, ac mae TrC yn gweithredu'r mesurau lliniaru hyn mewn ffordd reoledig a gofalus ar draws y rhwydwaith.

Gofynnodd Christian Schmidt, Cyngor Sir Fynwy, beth oedd effaith y cynllun Williams-Schapps ar wasanaethau Trafnidiaeth Cymru. Awgrymodd James Price ei bod yn rhy gynnar i ddweud, ond os ydym yn cydweithio'n dda ag Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU a Great British Rail, dylai TrC allu cael canlyniad da. Nododd James ei fod yn destun siom nad oedd seilwaith rheilffyrdd wedi'i ddatganoli ymhellach.

Gofynnodd Mike Dalton i James beth oedd TrC yn credu y byddai'n digwydd i lif teithwyr, ar ôl COVID. Awgrymodd James Price fod Trafnidiaeth Cymru am ddarparu cynnyrch yr oedd pobl am ei ddefnyddio am bris y mae pobl yn fodlon ei dalu. Cyn COVID, roedd llawer o bobl yn teithio ar y rhwydwaith rheilffordd am nad oedd ganddynt opsiwn arall, ac er y byddai hyn yn parhau, dylai fod Trafnidiaeth Cymru'n creu cynnyrch y mae pobl am ei ddefnyddio a newid dulliau teithio.

Gofynnodd Christian Schmidt a oedd TrC yn ystyried y defnydd o barcio a theithio, yn ychwanegol at ddefnyddio rheilffyrdd yn ddyddiol fel dirprwy ar gyfer niferoedd cymudwyr. Awgrymodd James Price nad oedd yn sicr, ac y dylem gasglu gwybodaeth ac ymchwilio i'r sefyllfa.

## 3. Cadw'n Cymunedau'n Ddiogel

Arweiniodd Josh Hopkins, Trafnidiaeth Cymru, Arolygydd Richard Powell, Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac Emily Coughlin, Network Rail, drafodaeth ar y gwaith sydd gan TrC ar y gweill i gadw'r rheilffordd a'r rhwydwaith trafnidiaeth ehangach yn ddiogel i staff, cwsmeriaid a chymunedau. Fe wnaeth yr holl siaradwyr rannu gwybodaeth am eu gwaith partneriaeth er mwyn ymgysylltu â chymunedau.

Gofynnodd Heather Bolton, Telford and Wrekin Council, a oedd TrC a Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTP) yn rhannu gwybodaeth â thimau diogelwch cymunedol mewn awdurdodau lleol, ac a oedd TrC a BTP yn cysylltu â rhanbarthau HTP cyfagos a chwmnïau gweithredu trenau. Eglurodd Richard Powell fod BTP yn cydweithio'n agos â chynghorau a'u timau diogelwch drwy weithgorau amlasiantaeth, ond yn genedlaethol hefyd os yw'n fater ehangach fel diogelu. Ychwanegodd fod is-adrannau yn HTP yn cydweithio'n agos â'i gilydd sy'n hawdd ei gydgysylltu ar draws ffiniau.

Gofynnodd Jon Harris, Gloucestershire Community Rail Partnership, am resymau'n ymwneud â materion ymgysylltu lleol, a fyddai'n ddefnyddiol cael BTP a heddlu lleol y swyddfa gartref. Eglurodd Richard Powell y byddai hyn yn fuddiol ar gyfer mynd i'r afael â materion mewn un ardal. Gofynnodd Jon hefyd pa feddalwedd yr oedd TrC yn ei defnyddio ar gyfer ymgynghori, eglurodd Louis Mertens mai Mural oedd y feddalwedd dan sylw.

Cymerodd cyfranogwyr y fforwm ran mewn sesiynau gweithdy er mwyn trafod themâu penodol:

***Trosedd - Gweithgarwch troseddol ar y rhwydwaith trafnidiaeth.***

- Pa droseddau sy'n bodoli ar y rhwydwaith trafnidiaeth?
- Beth fyddech chi'n ei wneud os byddech chi'n gweld trosedd ar y rhwydwaith trafnidiaeth?
- Ydych chi'n gwybod rhif ffôn testun Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig?
- Beth ellid ei wneud (ar wahân i gysylltu â'r heddlu) i leihau troseddu ar y rhwydwaith trafnidiaeth?

Roedd trafodaethau'n cynnwys:

- Sut i hyrwyddo rhif testun BTP, gyda phosteri neu ddulliau cyfathrebu eraill
- Pwysigrwydd defnyddio rhif BTP i roi gwybod am broblemau
- Pwysigrwydd derbyn arian parod mewn peiriannau gwerthu tocynnau arian i bobl ifanc sydd heb gardiau banc

**Ymddygiad Gwrthgymdeithasol** ***Ymddygiad sy'n achosi braw neu ofid ar y rhwydwaith trafnidiaeth.***

- Beth sy'n achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol?
- Pwy sy'n achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol?
- Beth yw'r problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eich ardal chi?
- Ydych chi'n gwybod am unrhyw grwpiau allweddol y dylem fod yn ymgysylltu â nhw?

Roedd trafodaethau'n cynnwys:

- Peiriannau tocynnau'n cael eu fandaleiddio yn Ngorllewin Canolbarth Lloegr yn yr ardaloedd tawel
- Cydweithredu â thimau diogelwch cymunedol mewn awdurdodau lleol
- Y ffordd y mae'r cyfnod clo wedi achosi diflastod ymysg pobl ifanc
- Dryswch ynghylch cylch gwaith BTP y tu allan i drenau a bysiau
- Pobl yn teimlo'n agored i niwed yn hytrach na throseddau gwirioneddol
- Amlygrwydd staff BTP / TrC

**Digwyddiadau ar y rheilffordd** ***Yn cynnwys tresmasu, camddefnyddio croesfannau a gweithgarwch sy'n anniogel ar y rhwydwaith trafnidiaeth.***

- Beth ellir ei wneud er mwyn mynd i'r afael â digwyddiadau ar y rheilffordd?
- Beth ddylem fod yn ei wneud yn TrC er mwyn mynd i'r afael â digwyddiadau ar y rheilffordd?

Roedd trafodaethau'n cynnwys:

- Partneriaethau'n rhannu gwybodaeth
- Addysgu pobl ifanc, creu ymgyrchoedd ac adnoddau diddorol ar gyfer ysgolion
- Cymorth a arweinir gan gyfoedion
- Deall y broses adrodd ar gyfer BTP
- Blaenoriaethu diogelwch y cyhoedd

## 4. Cynllun Gwella Gorsafoedd

Cyflwynodd Hinatea Fonteneau, Pennaeth Prosiectau Gorsafoedd, Raglen Gwella Gorsafoedd Trafnidiaeth Cymru i wneud gwelliannau ac addasiadau i'r rhwydwaith o orsafoedd a reolir gan TrC ledled Cymru a'r Gororau.

Gofynnodd Christian Schmidt a fyddai modd rhannu'r cyflwyniad ar y rhaglen orsafoedd ar ôl y fforwm.

Gofynnodd Jon Harris sut roedd cynlluniau teithio gorsafoedd yn bwydo i mewn i'r rhaglen gwella gorsafoedd, ac yn dylanwadu ar y drefn flaenoriaethu. Eglurodd Hinatea y byddai'n cael effaith ar y rhaglen storio beiciau, ac y byddai'r tîm teithio llesol yn rhoi cynlluniau teithio'r orsaf ar waith fel rheol. Eglurodd Jon y gallai amrywiaeth yn y defnydd cymunedol o orsafoedd gael ei ystyriedochr yn ochr ag anghenion gweithredol y gorsafoedd, gan olygu y gellir cael fwy o ddiogelwch neu waith creu lleoedd, er enghraifft.

Gofynnodd Sheila Dee a oedd cynlluniau ailwampio adeiladau gorsafoedd yn cynnwys dewisiadau gwresogi cynaliadwy fel gwres solar neu wres ffynhonnell aer a fyddai'n gwneud llawer o unedau'n fwy deniadol i denantiaid. Nododd Sheila y gallai'r CRP lleol helpu i gael gafael ar gyllid. Eglurodd Hinatea y bydd y rhain yn cael eu hystyried a bydd rhesymau'n cael eu darparu os nad ydynt cael eu rhoi ar waith.

## 5. Gorsafoedd Gwefru Cerbydau Trydan

Cyflwynodd Tony Clayton, Rheolwr Prosiectau Datgarboneiddio, Trafnidiaeth Cymru, y prosiectau gwefru cerbydau trydan Cymru a'r Gororau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer yr holl rwydwaith ffyrdd yng Nghymru a'r gorsafoedd ar hyd a lled rhwydwaith Cymru a'r Gororau.

Cadarnhaodd Tony mewn ymateb i Jon Harris fod gorsaf Lydney wedi'i chynnwys yng nghwmpas cyntaf y ffrwd gwaith ar gyfer gwefru cerbydau trydan, fodd bynnag, nododd Tony nad oedd TrC yn disgwyl i gwmpas y prosiect gynnwys cymorth ar gyfer gwefru cerbydau trafnidiaeth cymunedol.

## 6. Ymgyrch farchnata ar gyfer adfer ar ôl Covid -19

Cyflwynodd Matt Breese, Rheolwr Brand, Trafnidiaeth Cymru, fanylion yr ymgyrch farchnata ddiweddaraf i annog pobl i ddychwelyd i drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio. Mae'r ymgyrch hon wedi'i llywio gan drafodaethau a gynhaliwyd mewn fforymau rhanddeiliaid blaenorol, a byddai safbwyntiau pellach gan fynychwyr am y cysyniad cyffredinol yn dderbyniol iawn. Cadarnhaodd Matt y byddai'r gwaith cynhyrchu'n digwydd ym mis Mehefin a Gorffennaf ac y byddai'n cyrraedd y farchnad erbyn mis Awst.

Awgrymodd Simon Jones, Cyngor Casnewydd, ei fod yn hoff o'r ffaith fod yr ymgyrch yn agnostig o ran dulliau teithio ac nad oedd yn ffafrio trenau – ychwanegodd y byddai llawer o gwmnïau bysiau yn ystyried datblygu ymgyrch debyg. Eglurodd Matt eu bod mewn trafodaethau â rhannau o'r diwydiant bysiau ynghylch yr ymgyrch hon. Nododd y bydd rhan helaeth o'r diwydiant yn rhan o ymgyrch fel hon, a gallai adlewyrchu'n dda ar TrC a bod yn fuddiol iddo felly.

Roedd Jon Harris yn canmol yr ymgyrch ond gofynnodd a oedd pedwaredd neges sef bod trafnidiaeth yn fwy hygyrch erbyn hyn. Erbyn hyn mae pobl yn dychwelyd i rwydwaith ac yn ei ddefnyddio mewn ffordd wahanol i'r hyn a oedd yn digwydd cynt, oherwydd bod eu harferion eu hunain wedi newid – er enghraifft mwy o hyblygrwydd ac amser hamdden. Awgrymodd Jon ongl arall sef hyrwyddo'r cysylltiadau i mewn i rannau o'r gororau. Eglurodd Matt fod TrC yn comisiynu gwaith ymchwil Yougov er mwyn deall yn well y negeseuon sydd angen eu darparu er mwyn annog pobl i deithio ar drenau ar draws y ffin.

Awgrymodd Christian Schmidt y dylai'r ymgyrch ddangos trafnidiaeth gyhoeddus fel rhan o fywyd cymdeithasol arferol, ac awgrymodd fod ymgyrch BVG gan GUD.Berlin yn gwneud hyn yn dda.

## 7. Paneli Cwsmeriaid Dosbarth Cyntaf

Cafwyd cyflwyniad gan Kate McIntyre, Rheolwr Ansawdd a Phrofiad Gwasanaethau, ar y profiad newydd i deithwyr dosbarth cyntaf ar drenau Mark 4 rhwng Caerdydd a'r Gogledd yn dilyn gweithdai ac ymgynghoriadau mewnol. Bydd y profiad dosbarth cyntaf yn cael ei lansio'n ffurfiol yn ystod Mehefin 2022. Ar hyn o bryd mae'r prosiect yn cynnull panel cwsmeriaid i brofi'r cynnig dosbarth cyntaf dros y 12 – 18 mis nesaf.

Gofynnodd Christian Schmidt sut gellid cyfiawnhau buddsoddiad mewn trenau dosbarth cyntaf, pan roedd TrC yn cael ei gefnogi'n bennaf gan Lywodraeth Cymru, oni bai bod y gwasanaeth hwn yn dystiolaeth o'r ffaith bod y gwasanaeth dosbarth cyntaf yn gwneud elw. Fe wnaeth Lewis Brencher gydnabod safbwynt Christian ond awgrymodd bod y cynigion i gwsmeriaid yn amrywiol a'i fod yn diwallu anghenion yr holl bobl sydd am deithio.

## 8. Unrhyw Fater Arall

Dim

### Camau Gweithredu

Cofnodwyd y camau gweithredu isod yn ystod y fforwm a byddwn yn mynd i'r afael â nhw cyn y Fforwm Rhanbarthol nesaf lle bynnag y bo'n bosibl.

| Camau Gweithredu | Beth fydd yn cael ei wneud? |
|---|---|
| Cyflwyniadau i'w rhannu ag aelodau'r fforwm | Bydd cyflwyniadau wedi'u hatodi i'r marciwr dyddiadur |
| Holodd Heather Bolton ac Adam Graham ynghylch y ffocws ar lif trafnidiaeth o'r gogledd i'r de yn hytrach nag o'r gorllewin i'r dwyrain dros y ffin | Bydd TrC yn darparu ymateb i'r ymholiad hwn |

## Uchafbwyntiau sgwrs ddigidol y Fforwm

Dyma uchafbwyntiau'r sgwrs yn adnodd sgwrsio'r Fforwm:

Rydym ni (BTP) yn cydweithio'n agos â heddlu'r swyddfa gartref ac mae'r mater o lwybrau i mewn i'r orsaf yn codi'i ben yn aml. Rydym wedi canfod mai'r allwedd i ddatrys problemau mewn gorsafoedd sydd â phroblemau gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol yw, er enghraifft, sicrhau nad oes agwedd "ni a nhw" o ran awdurdodaeth felly yn bendant, os oes unrhyw gyfarfodydd cynllunio, byddai'n ddefnyddiol cael cynrychiolydd o heddlu'r swyddfa gartref a BTP. Pe byddem yn nodi pryderon, byddem yn eu codi â'r heddlu lleol.

Pwynt da iawn gan Jon Harris – Ar gyfer caffis gorsafoedd dylid sicrhau mai'r flaenoriaeth yw oriau agor (cyn hired â phosibl!) dros rent – bydd hynny'n talu ffordd drwy ddefnydd uwch fin nos ac yn ystod penwythnosau.

Gwelwyd newid mewn dulliau teithio o gerdded, beicio a bysiau i deithiau car ac mae teithiau bellach yn hirach ac yn gyflymach – ond mae niferoedd teithiau (a hefyd yr amser y mae unigolyn cyffredin yn ei dreulio yn teithio) yn sefydlog (Tua 1000 o deithiau fesul unigolyn fesul blwyddyn ac un awr yn teithio fesul unigolyn fesul diwrnod)

Dydw i am weld y golygfeydd arferol o drafnidiaeth gyhoeddus. Ond rwy'n hoffi gweld bod trafnidiaeth gyhoeddus yn rhan o fywyd cymdeithasol arferol – mewn delweddau. Mae ymgyrch BVG (gan GUD.Berlin) yn gwneud hyn yn dda, ac rydw i'n hoffi'r ymgyrch farchnata #takethetrain gan MTA hefyd. Os ydym ni ond yn dangos golygfeydd cymdeithasol neis a dim ond sôn am drafnidiaeth gyhoeddus yn yr hyn sy'n cael ei ddweud, yna mae hynny'n llai buddiol o lawer i drafnidiaeth gyhoeddus nag os gallwn ddangos bod trafnidiaeth gyhoeddus yn rhan o fywyd da arferol

## Fforwm Rhanddeiliaid Rhanbarthol Nesaf

Cynhelir Fforwm Rhanddeiliaid Rhanbarthol nesaf Cymru a'r Gororau 9 Medi